

# Canllaw cychwyn cyflym

Mae'r Big Street Survey yn adnodd cwricwlwm a grëwyd gan Sustrans i helpu disgyblion archwilio eu hardal leol, ystyried beth sy'n dda ac yn ddrwg, ac yna llunio maniffesto ar gyfer newid.

Mae'n hwyliog, mae'n ysbrydoli, a gall wneud newid gwirioneddol yn y strydoedd o amgylch eich ysgol.



## Amdani...

Ewch i [www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk), i dudalen y **Big Street Survey**, a gofynnwch i gael lawrlwytho eich adnoddau – gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn am y rhai iawn ar gyfer eich dosbarth, h.y. y grŵp oedran cywir

- **Darllenwch drwy'r cynllun gwers**, fel eich bod yn gwybod pa adnoddau y gallai fod eu hangen arnoch a sut i gynnal y gweithgareddau
- **Argraffwch lawlyfr i bob disgybl**
- **Argraffwch adnoddau eraill yn ôl y galw yn unol â'r cynllun gwers**
- **Cadwch y PowerPoint yn agored wrth gynnal y wers**, bydd yn eich tywys drwyddi fesul cam



## Codi eich llais...

Bydd y disgyblion yn dewis fel dosbarth pa bump newid y maen nhw am eu cynnwys yn eu maniffesto

- **Cyflwynwch eich maniffesto i lunwyr penderfyniadau'n lleol**, fel cynghorwyr, swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion trafnidiaeth a'r wasg
- **Gwnewch argraff drwy fod yn greadigol** – gall maniffesto fod ar ffurf pum pwynt ar ddarn o bapur, ond gallech lunio cyflwyniad, defnyddio deunydd fideo a sain, neu ychwanegu lluniau a thystiolaeth.
- **Cysylltwch â'ch AS**, unwaith mae'r newidiadau wedi'u penderfynu, cyflwynwch eich maniffesto'n uniongyrchol i'ch AS

## Beth nesaf?

Cadwch lygad ar wefan Street Survey ar gyfer rhagor o weithgareddau Big Street Survey yn y dyfodol. Mae gennym hefyd amrywiaeth eang o adnoddau eraill, heriau a chynlluniau gwobrwyo am ddim. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Wythnos beicio i'r ysgol
- Strolwch a Roliwch Sustrans, her cerdded, olwyno, sgwtera a beicio fwyaf rhwng ysgolion y DU.
- Strydoedd Ysgol Sustrans, yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a chymunedau lleol i gau'r ffyrdd o gwmpas ysgolion i draffig modur yn ystod adegau danfon a chyrchu plant o'r ysgol



# A quick-start guide

The **Big Street Survey** is a curriculum resource created by **Sustrans** to help pupils investigate their local area, consider what is good and bad, then produce a manifesto for change.

It's fun, it's inspiring and it can make a genuine change in the streets around your school



## Get going...

Visit [www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk), **Big Street Survey** page and request to **download your resources** – make sure you request the right ones for your class, i.e. age group

- **Have a read through the lesson plan**, so you know what resources you might need and how to run the activities
- **Print out a handbook for each pupil**
- **Print out other resources as required in the lesson plan**
- **Have the PowerPoint up when doing the lesson**, it will take you through step-by-step.



## Make your voice heard...

Pupils decide as a class which five changes they want in their manifesto

- **Submit your manifesto to local decision-makers**, such as councillors, local authority officers, transport professionals and the media.
- **Make an impact by being creative** – a manifesto can be five points on a piece of paper, but you could produce a presentation, use video and audio material, or add pictures and evidence.

## What next?

Keep an eye on the Sustrans website for additional **Big Street Survey** activities in the future. We also have a wide range of other free resources, challenges and reward schemes. These include:

- **Sustrans Big Walk and Wheel**, the UK's largest walking, wheeling, scooting and cycling to school challenge.
- **Sustrans School Streets**, supporting local authorities, schools and local communities to close the roads around schools to motor traffic at drop off and pick up times
- **Bike to School week**, organised by Sustrans and the Bikeability Trust, celebrates cycling to school and the benefits of travelling actively for children.

Visit [sustrans.org.uk/for-professionals/education/](http://sustrans.org.uk/for-professionals/education/)





**Dyma'r holl feysydd chwricwlwm y gellir defnyddio'r Big Street Survey i'w harchwilio.**

Argymhellwn ichi gynnal y gweithgareddau hyn dros ddau sesiwn prynhawn, fodd bynnag gallwch wneud fersiwn byrrach drwy hepgor rhai gweithgareddau, yn unol â'r nodiadau ar y cynlluniau gwersi. Gellir gwneud y gweithgareddau hyn rywdro eto fel gwersi estynnol, os hoffech.

### Nod

Archwilio ein cymuned i'w gwneud yn well i ni.

### Thema holi a chwestiynau allweddol

- Pa mor dda ydym ni'n adnabod yr ardal o amgylch yr ysgol?
- Sut mae rhai rhannau o'r ardal o amgylch yr ysgol yn gwneud inni deimlo?
- Sut gallwn ni gasglu gwybodaeth am yr ardal o amgylch yr ysgol a'i defnyddio i wella'r ardal?

### Amcanion dysgu, gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd

Sefydlu daearyddiaeth bersonol myfyrwyr (ffiniau ffisegol, canfyddiadau) ac ymatebion emosiynol i wahanol sefyllfaoedd.

### Adnoddau

- PowerPoint
- Stopwatsh
- Llyfryn disgyblion
- Pensiliau
- Clipfwrdd
- Senarios Strydoedd
- Tabled ddigidol neu Gamera

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

- Dyniaethau
  - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol – yn cysylltu â sut mae'r adnodd yn gofyn i ddisgyblion gynnal arolwg o'u stryd nawr a sut gellir ei newid er gwell yn y dyfodol
  - Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl – sut gall gweithredoedd dynol lywio dyluniad stryd, sut mae cymunedau'n teimlo, pa mor ddiogel yw ein strydoedd ar gyfer teithio llesol, ac ati
  - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol – yr her o ymdrin â strydoedd prysur a ddyluniwyd ar gyfer traffig, a gweithredu egwyddorol i wella strydoedd ar gyfer teithio llesol
- Llythrennedd
- Rhifedd



Here are all the curriculum areas that the Big Street Survey can be used to explore.

We advise doing the activities over two afternoon sessions however you can do a shorter version by missing certain activities, as denoted in the lesson plan. These activities can always be done at a later time as extension lessons.

#### Aim

Exploring our community to make it better for us.

#### Enquiry theme and key questions

- How well do we know the area around the school?
- How do certain parts of the area around the school make us feel?
- How can we collect information about the area around the school and use it to improve the area?

#### Learning objectives: knowledge, understanding, skills, values

To establish the students' personal geographies (physical boundaries, perceptions) and emotional responses to different situations

#### Resources needed

- PowerPoint
- Stopwatch
- Pupil booklet
- Pencils
- Clipboards
- Street Scenarios
- Tablet or Camera

#### Curriculum links

- Humanities
  - Enquiry, exploration and investigation inspire curiosity about the world, its past, present and future' - links with how the resource asks pupils to survey their street now, and how it can be changed in the future for the better
  - Human societies are complex and diverse, and shaped by human actions' - how human actions can shape street design, how communities feel, how safe our streets are for active travel etc.
  - Informed, self-aware citizens, engage with the challenges and opportunities that face humanity, and are able to take considered and ethical action' - the challenge of busy streets designed for traffic and ethical action to improve streets for active travel
- Literacy
- Numeracy